**Os ydych yn aelod o staff academaidd a/neu ymchwil, dylech hefyd:**

Darparu amgylchedd addysgol teg gan sicrhau bod amgylchedd cynhwysol yn cael ei gynnal a'i ddatblygu.
Ymateb i anghenion amrywiol myfyrwyr wrth ddatblygu deilliannau a deunyddiau dysgu.
Sicrhewch fod eich gweithgaredd ymchwil yn cadw at egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth a safonau ymchwil moesegol.

## Deall Eich Cyfrifoldebau o ran Cydraddoldeb

Brifysgol.

**Hyfforddiant Cydraddoldeb**

Mae hyfforddi staff ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth yn amcan allweddol i'r Brifysgol. Yn debyg i gyrff cyhoeddus a sefydliadau AU eraill, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig ac yn wir mae ganddi rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod pob aelod o staff yn dilyn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n briodol i'w rôl yn y Brifysgol.

Rhaid i bob aelod o staff gwblhau'r **modiwl Cydraddoldeb ar-lein** a'r modiwl **Tuedd Anymwybodol** ar-lein fel rhan o'u cyfnod prawf.

Rhaid i bob rheolwr gwblhau'r **gweithdy Cydraddoldeb i Reolwyr**.

rheolwyr i ystyried cymhwysiad ymarferol Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol o fewn Colegau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol ac yn sicrhau bod rheolwyr nid -destun deddfwriaeth cydraddoldeb ond hefyd sut i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle. .

Rhaid i reolwyr sy'n ymwneud â recriwtio staff, yn enwedig y rhai sy'n eistedd ar y rhestr fer a phaneli cyfweld, gwblhau'r **gweithdy Recriwtio a Dethol**.
Trefnir gweithdai bob deufis ar yr Amserlen Hyfforddi a Datblygu a gellir eu cyflwyno hefyd ar gais i dimau neu adrannau penodol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cyrsiau hyn ar y tudalennau gwe **Datblygu Staff**
neu drwy gysylltu â Mari Ellis-Roberts **mari.ellis-roberts@bangor.ac.uk**

Os hoffech drafod unrhyw beth yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, cysylltwch â ni,
Nia Blackwell, Uwch Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol **n.blackwell@bangor.ac.uk**
neu
Danielle Williams, Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol **danielle.williams@bangor.ac.uk**
neu
Helen Munro, Swyddog Cydraddoldeb Myfyrwyr **h.munro@bangor.ac.uk**